# Canllawiau Statudol: Cymalau Gwaith a'r Gweithlu - Hysbysiadau

## Cyflwyniad

1. Pwrpas y dyletswyddau am gymalau gwaith a gweithlu yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Deddf SPPP), sy'n berthnasol i gontractau adeiladu mawr[1] a chontractau allanoli gwasanaethau[2] yn y drefn honno, yw cryfhau'r cysylltiad rhwng gofynion llesiant a geir mewn contractau a diwydrwydd dyladwy mewn contractau a rheoli cadwyn gyflenwi.

2. Mae adrannau 24(5)(b) ac (c), 25(1) a 26(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio roi sylw i gymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol, ac ystyried cynnwys y cymalau hyn o fewn contractau perthnasol. Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gyhoeddi cymalau enghreifftiol (adran 27(1) a 32).

3. Mae adrannau 25, 26, 27, 28 a 34 yn diffinio "contract adeiladu mawr" a "chontract allanoli gwasanaethau", y camau penodol sy'n ofynnol gan Awdurdodau Contractio mewn perthynas â'r contractau hyn, y categorïau o gymalau i'w defnyddio mewn contractau adeiladu mawr, a'r gofyniad i gymalau gwaith a gweithlu gael eu cymhwyso drwy is-gontractau a chadwyni cyflenwi.

## Cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr

4. Mae ffocws y ddyletswydd ar gyfer contractau adeiladu mawr[3] ar y sector adeiladu, lle gall risgiau o gydymffurfio gwael â rhwymedigaethau llesiant fod yn anodd mynd i'r afael â nhw ar draws cadwyni cyflenwi hir a chymhleth. Bydd gweithredu'r cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn rhoi mwy o sicrwydd o safonau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr a'r amgylchedd. Bydd hefyd yn rhoi mwy o hyder i gynigwyr y byddan nhw, a'u cystadleuwyr, yn cael eu dal i rwymedigaethau cytundebol

5. Gellir dod o hyd i'r cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol. Rhaid i Awdurdodau Contractio wneud y canlynol:

   i. rhoi sylw i'r cymalau ac ystyried a ddylid eu cynnwys (Adrannau 25(1) a 26(1) rhannau (a) a (b));
   ii. cymryd pob cam rhesymol i gynnwys y cymalau a sicrhau y gellir eu gweithredu (Adrannau 25(1) a 26(1) rhan (c)); ac

---

[1] Adran 25(2) ar gyfer diffiniad
[2] Adran 26(2) ar gyfer diffiniad
[3] Adran 25(2)(b) fel y'i diwygiwyd (gweler atodiad A)

iii. wrth reoli'r contract, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cymalau yn cael eu gweithredu (Adrannau 25(1) a 26(1) rhan (d)).

6. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cymalau gwaith, gyda dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill, i helpu gyda'r camau gweithredu yma.

## Y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu a'r cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol

7. Diben y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu (y Cod) (Adran 32), a'r cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yw gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan Awdurdodau Contractio yng Nghymru. Mae'r Cod yn ymdrin â materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig ag allanoli contractau gwasanaethau yng Nghymru. Mae adran 33 o Ddeddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod gynnwys cymalau contract enghreifftiol sydd:

   a) wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan staff yr opsiwn o drosglwyddo i gyflogwr newydd pan fydd Awdurdod Contractio yn allanoli gwasanaeth neu swyddogaeth;
   (b) wedi'u cynllunio i ddiogelu telerau ac amodau a threfniadau pensiynau staff sy'n trosglwyddo;
   (c) wedi'u cynllunio i sicrhau bod aelodau eraill o staff a gyflogir i gyflawni'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth a drosglwyddwyd, yn cael eu cyflogi ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol â threfniadau pensiwn rhesymol.

8. Mae'r cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol i'w gweld yma ynghyd â'r Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 32. Rhaid i Awdurdodau Contractio wneud y canlynol:

i. rhoi sylw i'r Cod (Adran 26(1)(a)) ac ystyried a ddylid cynnwys cymalau'r gweithlu (Adran 26(1)(b));
ii. cymryd pob cam rhesymol i gynnwys y cymalau a sicrhau y gellir eu gweithredu (Adran 26)(1) (c)); ac
iii. wrth reoli'r contract, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cymalau yn cael eu gweithredu (Adran 26(1)(d)).

## Y broses hysbysu

9. Mae'r cymalau wedi'u cynllunio fel y gellir eu cymhwyso i bob gwaith caffael perthnasol. Mae'r rhain yn gontractau adeiladu mawr a chontractau allanoli gwasanaethau yn y drefn honno. Y disgwyliad felly yw y bydd yr holl gymalau yn cael eu cynnwys a'u cymhwyso trwy gydol cyfnod y contract a thrwy gadwyni cyflenwi.

10. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd Awdurdodau Contractio, ar ôl ystyried y cymalau, yn penderfynu nad ydynt yn gallu cynnwys a chymhwyso rhai, neu bob cymal, mewn gwaith caffael perthnasol.

11. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae Adrannau 29 a 35 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Contractio i hysbysu Gweinidogion Cymru. Rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Awdurdod Contractio:
    - heg fwriadu cynnwys unrhyw un neu bob un o'r cymalau yn y contract;
    - heb gynnwys unrhyw un neu bob un o'r cymalau;
    - heb unrhyw broses ar waith i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau yn cael eu gweithredu (gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, a yw'r contract yn cael ei is-gontractio).

12. Yn ddelfrydol, dylid anfon hysbysiadau cyn hysbysebu’r contract (neu cyn i drefniant yn ôl y gofyn neu broses gaffael arall ddechrau), gan adael digon o amser i asesu'r rhesymau ac i dderbyn ymateb. Awgrymir bod y cyfnod hwn fel arfer yn para o fewn 25 diwrnod gweithio.

13. Rhaid i Awdurdodau Contractio ddarparu'r holl wybodaeth y maent yn credu ei bod yn berthnasol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad mewn modd amserol. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

    - Amserlenni a gynllunnir ar gyfer y broses gaffael.
    - Rhesymwaith dros beidio â chynnwys unrhyw un neu bob un o'r cymalau yn y contract perthnasol.
    - Manylion y broses a ddilynwyd hyd yma, gan gynnwys llwybr i'r farchnad, ymgysylltu â'r farchnad, strategaeth gaffael benodol i’r contract ac asesiadau darparwyr i fodloni Deddf SPPP (gan gynnwys cyngor cyfreithiol lle y darperir).
    - Manylion am unrhyw lwybrau amgen i'r farchnad a ystyriwyd ac a fyddent yn caniatáu cynnwys y cymalau perthnasol, a pham nad yw'r dewisiadau amgen hyn yn cael eu symud ymlaen.
    - Unrhyw effaith bosibl, er enghraifft un ariannol neu ar ddarparu gwasanaethau, pe na bai'r contract yn cael ei gaffael yn unol â'i strategaeth a'i amserlenni.
    - Unrhyw fesurau lliniaru posibl a ystyriwyd o ran sut y gellir cyflawni dyledus ddiwydrwydd yn y gadwyn gyflenwi ar ddeunydd pwnc y cymalau mewn ffyrdd eraill.

- Unrhyw fesurau y bydd yr Awdurdod Contractio yn eu cymryd i sicrhau y bydd fersiynau o'r contract yn y dyfodol yn cynnwys y cymalau.

14. Dylai Awdurdodau Contractio gyflwyno hysbysiadau trwy'r porth hysbysu rhagnodedig a sicrhau bod yr holl feysydd a dogfennau ategol gofynnol yn cael eu cynnwys, er mwyn osgoi oedi diangen.

15. Ar ôl cyflwyno i'r porth, bydd Awdurdodau Contractio yn derbyn rhif cyfeirnod dyrannol, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth bellach am yr achos hwnnw. Dylent dderbyn hyn ymhen 3 diwrnod gwaith o'r cyflwyniad.

16. Os yw gwybodaeth hanfodol ar goll neu'n aneglur, bydd yr Awdurdod Contractio yn derbyn cais am eglurhad. Bydd amserlen y broses hysbysu yn oedi nes y darperir yr eglurhad y gofynnir amdano.

17. Mae manylion y broses ôl-hysbysu wedi'u cynnwys yn yr adran "Ymateb i'r Hysbysiad" isod.

## Cytundebau fframwaith, DPS, Marchnadoedd Dynamig a chontractau yn ôl y gofyn

18. Diffinnir "contract cyhoeddus" yn adran 21(1) fel "contract rhwng un neu fwy o weithredwyr economaidd ac un neu fwy o Awdurdodau Contractio; ac sydd â'r nod o weithredu gwaith, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau". Mae adran 21(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb fframwaith gael ei drin fel contract cyhoeddus. Mae adran 25(2) yn diffinio "contract adeiladu mawr fel contract cyhoeddus sy'n gontract gwaith ac â gwerth sy'n hafal i £2m neu'n fwy na hynny."

19. Mae hyn yn golygu y dylid trin cytundeb fframwaith, neu farchnad ddynamig, a osodwyd gan Awdurdod Contractio Cymru, a threfniant yn ôl y galw ganddo neu gan DPS a wnaed yn flaenorol, yn gontract cyhoeddus. Felly, bydd y dyletswyddau mewn perthynas â chymalau gwaith a gweithlu yn berthnasol i'r ddau. Natur contractau allanoli gwasanaethau yw na fyddent fel arfer yn cael eu cyrchu trwy gytundeb fframwaith, DPS neu farchnad ddynamig, fodd bynnag, mae contractau adeiladu yn aml yn cael eu creu yn drefniadau yn ôl y gofyn o'r cytundebau hyn.

20. Dylid nodi y bydd y rhwymedigaeth i ystyried cynnwys cymalau perthnasol yn gymwys i'r holl Awdurdodau Contractio a restrir yn Atodlen 1 o Ddeddf SPPP, cyn gynted ag y bydd Deddf SPPP mewn grym. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Contractio ystyried cynnwys yr holl gymalau perthnasol mewn contract yn ôl y gofyn, hyd yn oed os yw'r cytundeb fframwaith, DPS neu'r farchnad ddynamig wedi'i wneud gan gorff nad yw'n cael ei gynnwys yn Atodlen 1 (er enghraifft corff sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru), neu a wnaed cyn i'r gyfraith ddod i rym. Os yw'r awdurdod sy'n creu'r contract yn ôl y galw yn awdurdod contractio a restrir yn Atodlen 1, a'i fod yn penderfynu peidio â chynnwys y cymalau, bydd angen anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru, fel y disgrifir uchod.

21. Mae'r dyletswyddau hysbysu hefyd yn berthnasol i unrhyw gaffael o fewn cwmpas a gyflawnir o dan Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Cyfundrefn Dewis Darparwyr) (Cymru) 2025.

## Cyfathrebu â chyflenwyr

22. Bydd yn bwysig gwneud darpar gyflenwyr yn ymwybodol cyn gynted â phosibl o unrhyw ymarfer caffael perthnasol y bydd angen cymhwyso'r cymalau hyn heb newid, gyda'r disgwyliadau canlynol yn cael eu cynnal trwy gydol y gadwyn gyflenwi, ac y bydd angen monitro hyn. Mae hyn yn golygu y bydd darpar gynigwyr yn gallu trafod y cymalau gydag is-gontractwyr arfaethedig, felly pan fydd y tendr yn fyw, bydd pob cynigydd yn gallu ystyried effaith y gofynion hyn yn eu cynnig.

23. Nid yw Deddf SPPP yn gosod terfyn ar nifer haenau'r gadwyn gyflenwi y dylai'r rhwymedigaethau hyn fod yn berthnasol drwyddynt. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod proses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau yn cael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei isgontractio, ac mae'n cynnwys enghreifftiau o gamau rhesymol y gellid eu cymryd.

24. Unwaith y cytunwyd ar gynnwys y cymalau, dylid eu trin yn rhai na ellir eu trosglwyddo ac yn elfen orfodol o gynnig sy'n cydymffurfio. Mae hyn yn codi'r potensial i sawl senario ddatblygu ar wahanol gamau. Dyma rai enghreifftiau:

- Yn ystod y broses ymgysylltu cyn tendro, os bydd nifer sylweddol o gyflenwyr yn hysbysu'r Awdurdod Contractio nad yw gweithredu'r cymalau yn ymarferol ar gyfer prosiect penodol, dylai'r Awdurdod Contractio gynnal asesiad o'r

rhesymau a ddarperir a sefydlu a yw'r rhain yn rhwystrau cyfreithlon na ellir eu goresgyn yn y cyd-destun hwn, a ellid cymryd camau a fyddai'n caniatáu cynnwys y cymalau (os argymhellir gweithredu ar sail pryderon un cyflenwr neu gyd-destun gweithredol, dylid cymryd gofal o ran rhannu unrhyw gyngor neu gamau gweithredu a argymhellir gyda'r holl gynigwyr posibl), neu a ddylid bwrw ymlaen â chynnwys y cymalau yn y tendr. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth pe bai angen i'r Awdurdod Contractio gyflwyno hysbysiad ar gyfer y tendr hwn ar unrhyw adeg.

- Os yw cyflenwyr yn hysbysu'r Awdurdod Contractio na allant gydymffurfio â'r cymalau yn ystod y cyfnod tendr, dylai'r Awdurdod Contractio ofyn am gadarnhad gan bob cynigydd arall eu bod yn gallu gweithredu'r cymalau. Os yw hyn yn wir, yna ystyrir bod pob cynigydd nad ydynt yn gallu defnyddio a monitro'r cymalau wedi eithrio eu hunain o'r broses dendro. Dylid esbonio'r broses hon yn yr ymgysylltiad cyn tendro a'r ddogfennaeth dendro. Os penderfynir oherwydd natur y contract (er enghraifft os oes marchnad gyfyngedig iawn neu os yw natur y gwaith yn arbenigol ac yn atal defnyddio unrhyw un neu'r holl gymalau), yna dylai hyn fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hysbysiad, y dylid ei chyflwyno i Weinidogion Cymru cyn bwrw ymlaen â'r broses dendro.
- Os yw cyflenwyr neu is-gontractwyr yn hysbysu'r Awdurdod Contractio, y prif gontractwr neu'r is-gontractwyr haen nesaf (fel y bo'n briodol o fewn y gadwyn gyflenwi) na allant weithredu na monitro'r cymalau ar ôl dyfarnu'r contract ac yn ystod rheoli contract (ar ôl dechrau'r prosiect), rhaid hysbysu'r Awdurdod Contractio cyn gynted â phosibl. Dylai weithio gyda phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi i fynd i'r afael â'r broblem, ond os nad yw hyn yn bosibl, dylai roi gwybod i Weinidogion Cymru drwy hysbysiad ar unwaith. Dylai'r broses hon gynnwys asesiad o'r opsiynau sydd ar gael. Er enghraifft, os byddai cynnwys set benodol o ddeunyddiau yn atal cynnwys y cymalau, dylid cynnal asesiad o unrhyw ddewisiadau amgen a rhoi gwybod i'r Awdurdod Contractio. Dylai'r Awdurdod Contractio wedyn ffurfio barn ynghylch a fyddai contractio ar gyfer/gyda'r cynnyrch/cyflenwr amgen wedi effeithio'n sylweddol ar ganlyniad y tendr, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffordd honno o weithredu.

## Yr ymateb i'r hysbysiad

25. Bydd hysbysiadau yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru yn y lle cyntaf (adran 36), a gallant geisio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ragor o wybodaeth gan yr Awdurdod Contractio. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd geisio cyngor is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (Adrannau 30(2) a

36(2)). Mae Ddeddf SPPP hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o'r hysbysiad.

26. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai Awdurdodau Contractio fel arfer ddisgwyl derbyn llythyr ymateb ffurfiol yn cadarnhau'r penderfyniad ymhen 25 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbyniwyd eu hysbysiad gwreiddiol. Ar gyfer achosion cymhleth, neu lle nad yw'r Awdurdodau Contractio wedi darparu gwybodaeth berthnasol, estynnir yr amserlen hon. Hysbysir Awdurdodau Contractio o unrhyw oedi cyn iddynt dderbyn ymateb.

27. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon â'r rhesymau a roddir, bydd hyn yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Contractio cyn gynted â phosibl – fel arfer o fewn 25 diwrnod gweithio. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys crynodeb o'u rhesymau dros fod yn fodlon. Mae Deddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r crynodeb hwn wedyn (Adrannau 30(1) a 36(1).

28. Os nad ydynt yn fodlon, (Adrannau 30(4) a 36(4)) gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Awdurdod Contractio i gymryd pob cam rhesymol i:

    (a) gynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract allanoli gwasanaethau,

    (b) rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu, neu

    (c) roi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu lle gaiff y contract ei is-gontractio.

29. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu cyfarwyddo'r Awdurdod Contractio, rhaid iddynt roi gwybod i is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o'u penderfyniad, a bydd wedyn yn cyhoeddi'r cyfarwyddiadau a roddir.

30. Fel arall, gall Gweinidogion Cymru benderfynu nad ydynt yn fodlon ond nad ydynt yn dymuno cyfarwyddo'r Awdurdod Contractio. Yn yr achos hwn, byddant yn cyfleu'r wybodaeth hon i'r Awdurdod Contractio gan gynnwys crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad hwn. Rhaid hefyd iddynt hysbysu is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a chyhoeddi wedyn eu rhesymau pam nad oes cyfarwyddyd wedi'i roi.

31. Pan fydd Awdurdodau Contractio wedi'u hysbysu o benderfyniad Gweinidogion Cymru Bydd Gweinidogion Cymru yn adrodd ar bob hysbysiad, beth bynnag fo'r canlyniad. Bydd yr adroddiadau hyn yn crynhoi'r ffactorau yn yr achos a arweiniodd at beidio â chynnwys cymalau, a'r penderfyniad a wnaed gan

Weinidogion Cymru o ganlyniad. Yn dilyn hysbysu'r Awdurdod Contractio, cyhoeddir crynodeb i'r penderfyniad terfynol yn unol â gofynion tryloywder Deddf SPPP.

32. Os gwneir penderfyniad i'w gynnwys ar y dechrau ond y cyrhaeddir pebderfyniad i beidio â'i gynnwys yn ddiweddarach yn y broses gaffael, mewn senarios megis y rhai a ddisgrifir uchod, dylid anfon yr hysbysiad at Weinidogion Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, gan nodi'r rhesymau.

## Rheoli Contractau

33. Bydd angen i Awdurdodau Contractio roi prosesau ar waith i sicrhau bod y cymalau enghreifftiol yn cael eu cymhwyso ar draws cadwyni cyflenwi. Mae hyn yn golygu monitro a chofnodi rheolaidd fel rhan o'u cyfundrefn rheoli contractau. Bydd gan bob awdurdod ei ddull ei hun o reoli contractau, ond awgrymir y gall y camau canlynol fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pob parti yn cadw at Ddeddf SPPP:

- Gwiriadau ar y fan a'r lle o ddogfennau contract
- Cyfarfodydd ag undebau llafur cydnabyddedig
- Cyfarfodydd â chynrychiolwyr contractwyr
- Cyfarfodydd â chynrychiolwyr isgontractwyr
- Gwirio trydydd parti yn achos contractau risg uwch – y dylid gadael y diffiniad ohonynt i awdurdodau unigol
- Gofyniad i gontractwyr ddarparu data chwarterol ar nifer yr rhai newydd sy'n ymuno a chadw at Ddeddf SPPP
- Adroddiadau blynyddol i gynnwys data ar gynnwys cymalau enghreifftiol a chamau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau cydymffurfiaeth (gweler canllawiau ar adroddiadau blynyddol)
- Dogfennaeth o'r holl gamau uchod i sicrhau llwybr archwilio cryf.

34. Mae Deddf SPPP yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio gynnwys crynodeb o'r camau rhesymol y maent wedi'u cymryd i gyflawni eu hamcanion ar gyfer caffaeliadau rhagnodedig yn eu hadroddiadau blynyddol. Dylid cynnwys caffaeliadau gwasanaethau adeiladu ac allanol mawr yn hyn, gyda manylion a yw'r cymalau perthnasol wedi'u cynnwys a'r gofynion wedi'u monitro trwy gadwyni cyflenwi. Gall Awdurdodau Contractio benderfynu sut i gyfleu'r wybodaeth hon yn eu hadroddiadau blynyddol.